

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
09 Tachwedd 2021

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â gweinyddu a llywodraethu cyffredinol Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gwneir y Rheoliadau hyn fel rhan o gyfres o reoliadau sy'n gysylltiedig â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 3 Rhagfyr 2021, gydag ychydig o eithriadau a ddaw i rym ar 6 Mai 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor am nodi bod y rheoliadau hyn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac sy'n ceisio sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddu a llywodraethu â llywodraeth leol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r rheoliadau hyn i gael eu gwneud yn adrannau 80(1), 83, 84(2) ad 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 80(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgorau.

Mae adran 83 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu ddarpariaethau arbed.

Mae adran 84(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn cysylltiad â rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a deuant i rym yn bennaf ar 3 Rhagfyr 2021, gyda rhai darpariaethau'n dod i rym ar 6 Mai 2022.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn gwneud nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlir trwy reoliadau, ac yn cynnwys y prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sy'n sefydlu pob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol. Yn ogystal, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cyfethol unigolion i fod yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ar hyn o bryd mae pedwar o Gyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u sefydlu yng Nghymru: Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin a Chyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu. Mae Rheoliadau Rhif 2 Cyffredinol yn rhan o becyn o ddarpariaeth a diwygiadau annibynnol i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau Rhif 2 cyffredinol:

- a. yn darparu ar gyfer cychwyn y darpariaethau amrywiol yn y Rheoliadau. Daw'r mwyafrif o'r darpariaethau i rym ar 3 Rhagfyr 2021. Er hynny, mae cychwyn darpariaethau penodol yn cael ei ohirio tan 6 Mai 2022 gan eu bod yn diwygio darpariaethau a gaiff eu diwygio ar 5 Mai 2022 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- b. yn darparu bod rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru benodi swyddogion gweithredol penodol, sef Prif Swyddog Gweithredol, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau penodol i'w harfer gan bob deiliad swydd yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn ymestyn cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i CBCau a'u haelodau
- c. yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â staff. Er enghraifft, maent yn ymestyn y diffiniad o 'swyddog priodol' yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig a hefyd yn cymhwyso darpariaethau yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan ddarparu bod swyddi penodol mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfyngedig yn wleidyddol. Ni chaiff deiliaid swyddi o'r fath fod yn aelodau o Gyd-bwyllgor Corfforedig, cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- d. yn gwneud darpariaeth yn caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig wneud trefniadau i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan is-bwyllgorau, staff neu ar y cyd â Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill neu â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru
- e. yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch cyfarfodydd a thrafodion Cyd-bwyllgorau Corfforedig, er enghraifft ynghylch ym mha fffyrdd y cynhelir cyfarfodydd, mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd, cyhoeddi papurau a mynediad at ddogfennau cysylltiedig
- f. yn gwneud nifer o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys y rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-

bwyllgorau Corfforedig y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain) o ganlyniad i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r darpariaethau eraill yn y Rheoliadau hyn.

5. Ymgynghori

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn rhan o becyn o Reoliadau / Gorchmynion sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru. Mae'r ymagwedd gyffredinol at ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'r dyletswyddau a ddylai fod yn gymwys wedi'i chyd-ddatblygu â Llywodraeth Leol, CLILC a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys er enghraifft Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cynhwysfawr yn 2020 ar Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a'r drefn reoleiddio ehangach y bwriedid iddi fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad roedd cefnogaeth helaeth, yn enwedig o du'r awdurdodau lleol, y dylai CBCau fod yn ddarostyngedig i gyfundrefnau deddfwriaethol a llywodraethu presennol ac y dylai CBCau fod yn ddarostyngedig i lawer o'r un pwerau a dyletswyddau â phrif gynghorau a fframwaith llywodraethu a gweinyddol tebyg i brif gynghorau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar Reoliadau drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo yn gyffredinol fod y rheoliadau'n glir ac yn adlewyrchu'r egwyddor sylfaenol y dylid trin CBCau fel aelod o'r teulu llywodraeth leol a bod y rheoliadau'n cynnwys y darpariaethau y credir bod eu hangen i ymestyn agweddau perthnasol deddfwriaeth llywodraeth leol i CBCau.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-orllewin (Cymru) 2021 y costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys ystyried defnyddio'r un swyddogaethau gweinyddu a llywodraethu / swyddogaethau gweinyddu a llywodraethu tebyg sy'n gymwys i awdurdodau lleol.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y (De-orllewin) Cymru 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.